| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Bwrdd y Cyngor** |
| Dyddiad | **17 Chwefror 2009** |
| Adroddiad | **Strategaeth Ariannol 2009/10 – 2011/12** |
| Argymhelliad | **Sefydlu strategaeth ariannol ar gyfer 2009/10 a thu hwnt** |
| Awdur | **Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau** |
| Arweinydd Portffolio | **Cynghorydd Dylan Edwards** |

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr bu'r Bwrdd yn ystyried y sefyllfa gyllidol debygol ar gyfer y cyfnod 2009/10 – 2011/12.

1.2 Y sefyllfa a adroddwyd bryd hynny oedd diffyg cyllidebol tebygol yn 2009/10 o £5.8m (a hynny ar ôl ystyried effaith cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor) gyda gwasanaethau yn edrych am arbedion o £4m i gwrdd â'r diffyg yma fyddai'n golygu y byddai angen gohirio darganfod y gweddill tan 2010/11 drwy ddefnyddio balansau i bontio gweddill y diffyg yn y cyfamser.

1.3 Nodwyd fod yna dybiaethau yn y gyllideb (e.e. diffyg gwybodaeth ynglŷn â lefelau codiadau cyflog tebygol; lefelau llog ar falansau; chwyddiant tanwydd; effaith y dirwasgiad ar gyllidebau a.y.b) ond 'roedd y Bwrdd yn derbyn fod y lefel risg oedd dan sylw yn dderbyniol o gofio'r gyllideb wrth gefn oedd ar gael i gwrdd â'r materion hynny (£700,000).

1.4 Cytunodd y Bwrdd hefyd –

- y dylid anelu am lefel treth Gyngor sy'n gydnaws â'r amcan o warchod gwasanaethau gan dueddu tuag at gynnydd fydd yn lleihau'r toriadau fydd angen eu gwireddu.

- bod y polisi o chwilio am arbedion o £4m yn 2009/10 a chario'r diffyg ymlaen i 2010/11 yn parhau i fod yn gynaliadwy o gofio'r ffactorau allasai ostwng y swm y bydd angen ei gario ymlaen o'r £1.8m a nodir yn yr adroddiad.

- bod angen cymryd trosolwg corfforaethol ynglŷn â'r toriadau sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor gan roi ystyriaeth i'r blaenoriaethau yn gorfforaethol dros y 5 mlynedd nesaf gan ofyn am adroddiad ar y mater mor fuan ag y bo modd.

- gwrthod cais y Fforwm Cyllido Ysgolion i ddileu'r toriad demograffeg yn gyfan gwbl gan ystyried y mater pan fyddwn nesaf yn ystyried y targedau gwahaniaethol ar yr adeg briodol.

- eithrio addysg arbennig o'r angen i ganfod arbedion am y flwyddyn nesaf yn unig.

- cyflwyno adroddiad cynhwysfawr gerbron ynglŷn â'r sector uwchradd ym mis Chwefror pan benderfynir ar y gyllideb am y flwyddyn i ddod.

**1.5** Bydd cynnwys yr adroddiad yma yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror a byddwn yn adrodd i'r Bwrdd ar eu barn ynglyn a'r materion a amlinellir yng nghymal 10 yr adroddiad.

## 2 SEFYLLFA DERFYNOL 2009/10

2.1 Dyma bellach yw'r ffigyrau cyllidebol a ragwelir ar gyfer 2009/10 (nodir y gymhariaeth gyda'r hyn a adroddwyd ym mis Rhagfyr) -

**Tabl 1**
**Cyllideb derfynol 2009/10**

| **£'000** | **Adroddwyd yn Rhagfyr** | **Cyllideb Terfynol** | **Gwahaniaeth** |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Sylfaenol** | **206,362** | **206,362** | - |
| Chwyddiant cyflogau | 3,976 | 3,972 | (4) |
| Chwyddiant arall | 2,550 | 2,020 | (530) |
| Praeseptau | 306 | 208 | (98) |
| Incrementau | 684 | 684 | - |
| Llog ar falansau | 1,300 | 1,800 | 500 |
| Costau Cyfalaf | 107 | 107 | - |
| Demograffi – plant | (234) | (200) | 34 |
| Demograffi – Henoed | 293 | 293 | - |
| Amrywiol | (247) | 35 | 282 |
| Bidiau | 2,500 | 2,000 | (500) |
| **Cyfanswm gofynion** | 217,597 | 217,281 | (316) |
| **Grant Cynnal Refeniw** | (166,889) | (166,985) | (96) |
| **Treth Gyngor @ 4%** | (44,876) | (44,876) | - |
| **Diffyg** | 5,832 | 5,420 | (412) |

2.2 Mae'r ffigwr sydd angen ei ddarparu ar gyfer "chwyddiant arall" wedi gostwng ers Rhagfyr yn dilyn gwybodaeth ddiweddarach a gafwyd ynglŷn â'r cynnydd tebygol ym mhrisiau ynni. 'Rydym wedi cynnwys y dybiaeth mwyaf tebygol ond rhaid tanlinellu fod y ffigyrau yma yn parhau i fod yn hynod newidiol ac erys risg o hyd yn y maes yma.

2.3 Gostyngwyd y ffigwr praesept ar gyfer yr Awdurdod Tân yn dilyn hysbysiad ganddynt o'r ffigwr terfynol.

2.4 Daeth yn amlwg fod ein tafluniad cychwynnol ar gyfer y gostyngiad yn y gyllideb llog ar falansau a wnaed yn Rhagfyr yn or-optimistaidd a'r tafluniad diweddaraf yw y bydd llog ar falansau yn disgyn o'r lefel £3.5m sydd yn y gyllideb ar hyn o bryd i £1.2m (gostyngiad o £2.3m). 'Roeddem eisoes wedi paratoi ar gyfer colled o £500,000 wrth sefydlu cyllideb y llynedd ac felly fe fydd y tafluniad yma yn golygu gostyngiad pellach o £1.8m.

2.5 Atgoffaf aelodau o'r hyn a nodais yn Rhagfyr ein bod wedi taro ar ffigwr llog ar falansau sydd yn adlewyrchu yr hyn sy'n debygol o fod ar gael yn y tymor hirach a bod y ffigwr a nodir ar gyfer 2009/10 yn un optimistaidd, ond y byddwn yn dibynnu ar y ffaith fod ein perfformiad yn erbyn y gyfradd casglu Treth Gyngor fel arfer yn well na'r gyllideb fydd yn cynnig gwarchodaeth wrthgyferbyniol i'r risg yma.

2.6 Yn syml felly rhaid bod yn ymwybodol fod yna elfen o risg ynghlwm â'r ffigwr a roddwyd yma ar gyfer llog ar falansau hyd yn oed ar ôl ei ostwng £1.8m.

2.7 Mae'r ffigwr ar gyfer materion amrywiol wedi newid o'r gostyngiad o £247,000 a adroddwyd yn Rhagfyr (oedd yn deillio yn bennaf o ostyngiad yn y tunelledd sydd yn cael ei anfon i safleoedd gwaredu a'r arbediad yn y Dreth Tirlenwi oherwydd hynny) i ychwanegiad o £37,000. Daw hyn oherwydd yr angen i ail ymweld gyda rhai cyllidebau incwm oherwydd gostyngiadau sylweddol yn y lefelau incwm yn arbennig felly ym meysydd pridiannau tir, marchnadoedd a meysydd parcio.

2.8 Gostyngwyd y ddarpariaeth ar gyfer bidiau o £2.5m i £2m. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys £0.5m ar gyfer benthyca darbodus ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn unol â phenderfyniad blaenorol y Cyngor ynghyd â darpariaeth o £1.5m ar gyfer bidiau i ddiwallu'r anghenion a amlinellir yn adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad (ond gweler cymal 4.6 isod) .

2.9 Mae'r ffigwr grant a dderbynnir gan Lywodraeth y Cynulliad wedi newid o'r £166.889m a welwyd yn y setliad amodol i £166.985m.

2.10 Nodir y sefyllfa gymharol yn nhabl 2 isod -

**Tabl 2**
**Cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw**

| £'000 | Cyfartaledd Cymru | Gwynedd |
|---|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw 2008/9 | 3,814,554 | 163,320 |
| Grant Cynnal Refeniw 2009/10 | 3,923,315 | 166,985 |
| Cynnydd | 108,761 | 3,665 |
| Cynnydd (%) | 2.9% | 2.2% |

2.11 Mae'r cynnydd ar gyfer Gwynedd yn llai na'r cyfartaledd ar draws Cymru yn bennaf oherwydd ail ddyraniad adnoddau anabledd dysgu ar draws Cymru a gafodd ei weithredu yn raddol dros ddwy flynedd (2008/9 a 2009/10) ond fe lwyddwyd i leddfu rhywfaint o'r effaith drwy ddylanwadu ar y symiau a ddyrennir ar gyfer yr elfen Datblygu Economi o'r fformiwla. Newidiadau data bychan sydd yn creu'r newid rhwng y ffigyrau a adroddwyd yn y setliad amodol a'r ffigyrau a geir yn y setliad terfynol.

2.12 Mae yna waith yn parhau ar lefel aelodau a swyddogion i geisio dylanwadu ar y swm sydd ar gael yn gyffredinol i lywodraeth leol a dyraniad y swm hwnnw. Rhaid bod yn fyw i'r ffaith y bydd ceisio cael cytundeb i ddyraniad diwygiedig yn anoddach ar adeg pan mae'r setliad cyffredinol yn gwasgu pob Cyngor, ond mae'r Bwrdd wedi nodi ei fod yn dymuno sefydlu gweithgor traws bleidiol i edrych yn eang ar faes ariannu llywodraeth leol, gan roddi ystyriaeth i lunio strategaeth lobio effeithiol, er mwyn sicrhau setliad tecach sy'n cydnabod problemau darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwasgaredig eu poblogaeth. Mae trefniadau ar droed i gynnal cyfarfod cyntaf y gweithgor yma.

2.13 Yn gyffredinol felly rhaid tanlinellu yr hyn a nodais ym mis Rhagfyr, sef y bydd y Cyngor yn sefydlu cyllideb ar gyfer 2009/10 sydd â lefel uwch o risg ynghlwm iddo na'r hyn a welir fel arfer, ond yn wyneb sefyllfa anodd y mae'r Cyngor yn ei wynebu a'r £700,000 sydd ar gael i wynebu'r risgiau hynny, 'rwyf yn parhau i ystyried mai hon yw'r gyllideb fwyaf synhwyrol i'r Cyngor ei osod o bwyso a mesur y gwahanol ddadleuon.

## 3 RHAGOLYGON TAIR BLYNEDD 2009/10 – 2011/12

3.1 Yn unol â'r drefn bellach o fewn Gwynedd, mae'n hanfodol ein bod yn cynllunio ar sail tymor canolig yn hytrach nag ystyried sefyllfa 2009/10 ar ben ei hun.

3.2 Nodir tafluniad o'r sefyllfa fwyaf tebygol ar gyfer y tair blynedd i ddod yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3**
**Tafluniad o dybiaethau cyllidebol ar gyfer cynllunio 2009/10 – 2011/12**

| £m | 2009/10 | 2010/11 | Amrediad | 2011/12 | Amrediad |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb | 206.362 | 211.861 | | 217.558 | |
| Chwyddiant | 5.992 | 5.914 | +2m/-1.3m | 6.863 | +1.8m/-2.2m |
| Praeseptau | 0.208 | 0.270 | | 0.270 | |
| Pensiynau | - | - | | 1.110 | +1.1m/-1.1m |
| Incrementau | 0.684 | 0.395 | +0.3m | 0.256 | +0.4m |
| Llog ar Falansau | 1.800 | 0.200 | +0.4m/-0.5m | (0.600) | +0.5m/-0.6m |
| Costau Cyfalaf | 0.107 | (0.113) | | (0.520) | |
| Demograffi | 0.093 | 0.087 | | 0.048 | |
| Eraill | 0.035 | 0.500 | ? | 0.700 | |
| Bidiau | 2.000 | 3.000 | -1.5m | 3.000 | -1.5m |
| **Cyfanswm** | 217.281 | 222.114 | | 228.685 | |
| Grant | (166.985) | (170.887) | | (174.305) | |
| Treth Gyngor @4% | (44.876) | (46.671) | | (48.537) | |
| **Diffyg** | 5.420 | 4.556 | | 5.843 | |

3.3 Mae'r tybiaethau ar gyfer 2010/11 a 2011/12 yn debyg iawn i'r rhai a adroddwyd ym mis Rhagfyr, gyda chynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer bidiau yn cael ei gynnwys gan ragdybio y byddwn yn gweld pwysau ar gyllidebau yn sgil y dirwasgiad; darpariaeth ar gyfer prisiad o'r Gronfa Bensiwn yn 2010; cynnydd o 0.5% yn y cyfraddau yswiriant cenedlaethol sydd wedi cael eu cyhoeddi gan y Canghellor eisoes ar gyfer 2011/12 a'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer adfer cyfraddau llog sylfaenol.

3.4 Mae'r Cynulliad eisoes wedi cyhoeddi'r ffigwr grant ar gyfer 2010/11 ond rhaid bod yn fyw i'r ffaith na wyddom eto faint o'r arbedion effeithlonrwydd ychwanegol o'r £5bn a gyhoeddwyd gan y canghellor fydd yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad a faint o hwnnw wedyn fydd yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Leol. Mae'n bosibl i'r ffigwr yma fod yn llai felly. Cynlluniwyd ar gyfer cynnydd o 2% yn unig yn 2011/12.

## 4 Y DIRWASGIAD ARIANNOL

4.1 Un elfen newydd eleni sydd yn ddylanwad anffodus ar y Cyngor a thrigolion Gwynedd fel ei gilydd yw'r dirwasgiad ariannol, a dichon y bydd y Cyngor yn dymuno ceisio gwneud cymaint ag y gall, o fewn y cyfyngiadau amlwg y mae'r Cyngor ei hun yn wynebu, i helpu ein trigolion.

4.2 Fel y nodwyd uchod bu'n rhaid addasu cyllidebau incwm eisoes yn sgil yr hyn sy'n digwydd ac fe welir eisoes fod rhai gwasanaethau yn dechrau gweld effaith y dirwasgiad yn bwydo drwodd i'r galw am wasanaethau.

4.3 Ni wyddom eto yn iawn beth fydd hyd a lled hyn wrth gwrs a bydd yn rhaid cadw golwg barcud ar y sefyllfa dros y flwyddyn. Fel y nodwyd yng nghymal 3.3 uchod fe gynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer bidiau yn y cynlluniau ar gyfer 2010/11 a 2011/12 er mwyn diwallu'r galw ychwanegol yma ac unrhyw ostyngiadau pellach a welwn mewn incwm.

4.4 Tra'n cadw un llygad ar y bygythiadau amlwg yma i gyllideb y Cyngor rhaid ystyried a oes yna bethau y gall y Cyngor ei wneud i helpu ein dinasyddion gyda'r dirwasgiad.

4.5 Mae yna rai pethau eisoes ar droed i helpu gyda'r sefyllfa , er enghraifft –

- Uned Taliadau bellach yn talu biliau yn syth yn hytrach na'r diwrnod y maent yn wirioneddol ddyledus yn ôl y gyfraith;
- Uned Fudd-daliadau wedi sicrhau fod yr adnodd ganddynt i ddygymod gyda'r cynnydd o 20% a welwyd yn y ceisiadau am fudd-dal er mwyn osgoi oedi wrth brosesu;
- Bwrdd y Cyngor eisoes wedi gohirio ystyried adroddiad yn argymell codi ffioedd parcio er mwyn ystyried yr argymhelliad yng ngoleuni'r dirwasgiad;
- Bidiau dan ystyriaeth ar gyfer cyflogi swyddog digartrefedd yn barhaol er mwyn bod yn rhagweithiol i geisio osgoi digartrefedd, ynghyd ag ymrwymiad a roddwyd i barhau â'r Cynllun prydlesu os bydd y trefniadau ariannu yn newid.

4.6 Ar ben hyn, mae yna weithgor o swyddogion yn cwrdd ar hyn o bryd i ystyried sut y gellir ymestyn mwy o gymorth ac efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried pecyn pellach o gamau i geisio helpu trigolion Gwynedd gyda'r dirwasgiad. Byddai modd ariannu elfen o unrhyw becyn o'r gwahaniaeth yn y ffigwr sydd ei angen ar gyfer cwrdd â bidiau (£1.379m) a'r ffigwr a ddarparwyd yn y gyllideb (£1.5m). Byddai angen i unrhyw elfen arall ddod o falansau neu o'r gyllideb wrth gefn.

## 5 GOFYNION UNWAITH AC AM BYTH

5.1 Fe welir hefyd o adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad fod yna fidiau anorfod unwaith ac am byth cyfwerth â £1.148m wedi eu

hadnabod. Wedi eu cyfuno gyda'r gofynion unwaith ac am byth i ddarparu adnodd polisi/strategaeth benodol am ddwy flynedd a nodwyd yn yr adolygiad o Uwch Reolaeth y Cyngor (£0.137m), a chyllid pontio fydd ei angen er mwyn prynu amser i rai gwasanaethau weithredu ar gynlluniau arbedion (£0.044m), bydd angen cyfanswm cyllid unwaith ac am byth o £1.329m.

5.2 Yn erbyn hyn fodd bynnag, oherwydd bod yna amheuaeth ynglŷn â'i ddyfodol hir dymor nid yw'r Cyngor wedi ymrwymo yr oll o'r Grant Cymell Perfformiad a geir gan y Cynulliad (gan ymrwymo £1m yn unig o'r £1.331m a geir os cyflawnir y cytundeb gyda'r Cynulliad), ac felly mae'r £331,000 sy'n weddill ar gael i gwrdd ag elfen o'r gofynion unwaith ac am byth yma yn gostwng y galwad ar falansau i £998,000.

5.3 Dengys y sefyllfa ddiweddaraf o'r cynnydd tuag at ddarganfod arbedion 2009/10 fod y gwasanaethau wedi darganfod £3.944m (yn erbyn y gofyn o £4m). O gymeryd y bydd gofyn i bawb ddarganfod ei gyfran o'r arbedion bydd cyfanswm yr arbedion ar gael er mwyn diwallu anghenion y strategaeth o gwmpas £4.026m.

5.4 Ar ben hyn fodd bynnag mae'r adolygiad o Uwch Reolaeth y Cyngor yn arwain at £560,000 o arbedion y gellir hefyd eu cyfrif tuag at y diffyg cyllidebol. [Fel yr adroddwyd, mae'r adolygiad yn cynhyrchu £785,000 ond bydd £89,000 o'r swm yma yn cael ei ddefnyddio i helpu'r gwasanaeth plant ddod i hyd i'w cyfran hwy o'r £4m; a £100,000 eisoes wedi ei ddefnyddio ar gyfer cyflawni rhan yr Unedau Polisi o arbedion 2009/10, gyda £36,000 yn disgyn yn y Cyfrif Refeniw Tai gan adael £560,000 ar gael yn ychwanegol tuag at y targed arbedion].

5.5 Ar sail rhagdybiaeth o gynnydd yn y Dreth gyngor o 4% felly, golyga hyn y bydd yna £0.834m o arbedion yn cael eu trosglwyddo i 2010/11 yn golygu y bydd angen defnyddio cyfanswm balansau o ychydig dros £1.83 m i sicrhau cyllideb gytbwys yn 2009/10.

5.6 Byddai hyn hefyd yn golygu y byddai angen cynllunio felly ar gyfer darganfod arbedion o £5.39m yn 2010/11 (£4.556 {2010/11} + £0.834 {o 2009/10}) a £5.84m yn 2011/12.

5.7 Mae yna nifer o gynlluniau corfforaethol ar y gweill fydd yn dod ag arbedion yn ystod 2009/10 fel y gellir eu defnyddio yn 2010/11 a thu hwnt ac fe fydd rhain ar gael i gynorthwyo gyda'r cyfanswm dan sylw.

## 6 BALANSAU

6.1 Fel y nodir uchod felly bydd angen neilltuo £1.83m o falansau ar gyfer gofynion unwaith ac am byth 2009/10.

6.2 Ar adeg paratoi'r adroddiad yma rhagwelir erbyn diwedd 2008/9 y bydd gennym falansau cyffredinol o tua £7.2m. O ddefnyddio £1.83m

fel y nodir uchod bydd hyn yn gadael balansau cyffredinol o tua £5.4m – sef bron i hanner y lefel yr oedd yr Archwiliwr Dosbarth yn nodi yn ei lythyr rheoli eleni oedd yn lefel darbodus.

6.3 Rhaid cofio'r sialens sylweddol o ddarganfod arbedion o'r maint a amlinellir uchod a'r tebygrwydd y bydd galw am gyllid buddsoddi i arbed os am wneud hynny (boed drwy ddarganfod ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau neu i gwrdd â thaliadau diswyddo drwy weithredu toriadau).

6.4 Yn hynny o beth credaf fod y balansau, sydd bellach yn cynrychioli 1.5% o wariant refeniw gros y Cyngor, wedi cyrraedd yr isafswm y dylid eu cadw os am fod yn ddarbodus ac os am fedru gwarchod rhag bygythiadau ariannol posibl yn y dyfodol ac ni fyddwn yn argymell unrhyw ddefnydd pellach.

## 7 CYFALAF

7.1 Mae yna weithgor o'r Pwyllgor Craffu ar hyn o bryd yn ystyried sut i gau'r bwlch a nodwyd rhwng y gwariant sydd angen ei wario ar asedau'r Cyngor dros y 10 mlynedd nesaf (tua £221m) a'r adnoddau sydd ar gael (tua £90m).

7.2 Bydd hyn yn golygu cynnwys holl aelodau'r Cyngor i geisio sefydlu blaenoriaethau'r Cyngor o ran gwariant cyfalaf yn y dyfodol gweladwy gan gynnwys y dulliau a fwriedir eu defnyddio i gyllido'r blaenoriaethau hynny.

7.3 Hyd nes y bydd y gwaith yma wedi cael ei gwblhau ni fyddai'n rhesymegol ymrwymo unrhyw wariant cyfalaf nad yw'n weddol sicr o gael ei gynnwys mewn unrhyw gynllun terfynol.

7.4 Mae'r Pennaeth Polisi a Pherfformiad yn adrodd felly ar y gofynion cyfalaf hynny sydd yn cydymffurfio gyda'r canllaw yma ac fe nodir fod yna argymhelliad fod yna ofynion cyfalaf o £3.88m yn cael eu hychwanegu at y £7.42m sydd eisoes wedi ei ymrwymo ar gyfer 2009/10 yn gwneud cyfanswm o £11.3m.

7.5 Argymhellir fod y cynlluniau yma yn cael eu cymeradwyo (sydd o fewn yr adnoddau sydd ar gael o £13.95m) gan adael unrhyw ymrwymiadau pellach hyd nes y bydd y Cyngor wedi sefydlu ei flaenoriaethau. Rhagwelir y bydd y Gweithgor yn cwblhau ei waith er mwyn i'r Bwrdd fedru cymeryd penderfyniad ar hyn ddiwedd mis Mai a bryd hynny, gellir ychwanegu at raglen y flwyddyn gyfredol yn ogystal ag ychwanegu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

## 8 YSGOLION UWCHRADD

8.1 Sefydlwyd y targedau gwahaniaethol ar gyfer rhannu arbedion wrth sefydlu'r strategaeth ariannol yn 2007/8, gan ystyried amryw o

ffactorau (gan gynnwys gwariant cymharol; tybiaeth ynglŷn â gallu gwasanaeth i adnabod arbedion effeithlonrwydd a blaenoriaeth wleidyddol).

8.2 Ar hyn o bryd (ac am yr ail flwyddyn yn olynol) er mwyn cyflawni £4m o arbedion (sydd gyfwerth â 1.92% o drosiant y Cyngor), mae disgwyl i rai gwasanaethau ddarganfod ffigwr cyfwerth â 1.92% o'u trosiant tra bod disgwyl i eraill ddarganfod 2.29% o'u trosiant ac eraill yn gorfod darganfod 2.66% o'u trosiant.

8.3 Ar ben y ffaith fod y Cyngor wedi caniatáu i ysgolion gadw hanner y gostyngiad cyllidebol y dylid ei weithredu yn sgil nifer llai o ddisgyblion, bu iddo hefyd osod targed arbedion llai ar gyfer ysgolion uwchradd (1.57%) a tharged llai fyth ar gyfer ysgolion cynradd ac arbennig (1.09%).

8.4 Wrth ystyried y sefyllfa ym mis Rhagfyr fe benderfynodd y Bwrdd (ar argymhelliad y pwyllgor Craffu) y dylid dileu'r gofyn am arbedion gan ysgolion arbennig yn 2009/10 oherwydd fy mod wedi nodi fod yna dystiolaeth gref fod gwariant cymharol Gwynedd yn sylweddol is yn y maes yma o'i gymharu â gweddill Cymru.

8.5 Daeth y dystiolaeth yma i'r wyneb yn sgil gwaith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd i ystyried y wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â gwariant cymharol ar ysgolion ar draws Cymru.

8.6 Nid yw'r gwaith wedi gorffen eto ond o'r dystiolaeth a gasglwyd, ymddengys nad yw sefyllfa gymharol ysgolion addysg arbennig (o ran gwariant y pen) cystal â nifer o gynghorau eraill yng Nghymru, tra bod sefyllfa ysgolion cynradd ar y llaw arall yn dangos ein bod yn yr ail safle o ran gwariant y pen drwy Gymru gyfan.

8.7 Dengys y gwaith ymchwil fodd bynnag fod y gymhariaeth o ran gwariant y pen ar ysgolion uwchradd yn dangos ein bod yn y 12fed safle yng Nghymru, ond dengys yr un gymhariaeth mai gan Gwynedd y mae'r gymhareb disgybl / athro gorau yng Nghymru. Nid yw'r ddau ddarn o wybodaeth yma i weld yn gyson gyda'i gilydd ac mae yna waith pellach yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i geisio dod i waelod yr anghysondeb yma.

8.8 Yn Rhagfyr bu i'r Pwyllgor ystyried cais gan y Fforwm Cyllido Ysgolion iddynt gael cadw'r oll o'r gostyngiad demograffeg (yn hytrach na'r hanner y mae'r Cyngor wedi cytuno iddynt ei gadw yn ei strategaeth ariannol) ond gwrthododd y Pwyllgor y cais (gweler cymal 1.4 uchod).

8.9 Bryd hynny hefyd crybwyllais y gwaith ymchwil a nodir uchod ond dymuniad y pwyllgor oedd derbyn manylion yr ymchwil yn yr adroddiad yma er mwyn medru ystyried y mater yn rhesymegol.

8.10 Y dewis sy'n agored i'r Pwyllgor yw cadw at y dosraniad presennol ar gyfer 2009/10 neu ostwng y gofyn a roddir ar ysgolion uwchradd i'r un lefel â'r ysgolion cynradd (sef 1.09%) fyddai'n lleihau'r arbedion fyddai gofyn iddynt ei ddarganfod o £130,000. Mae'r Pennaeth Polisi a Pherfformiad eisoes wedi gwneud darpariaeth ar gyfer hyn yn ei restr o fidiau parhaol. Pe na byddai'r Pwyllgor yn dymuno cymeryd y cam yma felly byddai'r swm fyddai angen ar gyfer bidiau cymaint â hynny yn llai.

## 9 Y DRETH GYNGOR

9.1 Gan gymeryd fod y pwyllgor yn fodlon gyda'r tybiaethau a nodir yn y gyllideb, y penderfyniad sydd angen ei wneud felly yw lle i osod y Dreth Gyngor a lefel yr arbedion fydd yn deillio o'r penderfyniad hwnnw.

9.2 I raddau, mae dwylo'r Cyngor wedi eu clymu, gan y byddai'n annoeth gohirio darganfod gormod o arbedion tan 2010/11 ac mae'n rhaid i'r ffigwr arbedion a drosglwyddir fod yn un rhesymol ac un sy'n gyraeddadwy yn 2010/11 neu fel arall ni fyddwn ond yn twyllo ein hunain.

9.3 Er nad oes gennym unrhyw ffigyrau pendant, o'r wybodaeth a gafwyd ar lafar disgwyliaf i gyfartaledd cynnydd y Dreth Gyngor ar draws Cymru fod ychydig yn uwch na 4%, ond 'rwy'n disgwyl hefyd i'r cyfartaledd ar draws Gogledd Cymru fod yn is na 4%.

9.4 Gyda'r dirwasgiad yn taro mae'r penderfyniad ar lefel y Dreth Gyngor eleni yn anoddach nag a fu ers amser, yn enwedig o gofio mai'r pris o'i gadw rhy isel fydd mwy o doriadau.

9.5 Nodaf isod amrediad o lefelau Treth Gyngor sydd yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd a osodwyd yn Rhagfyr gan nodi lefel yr arbedion y byddai ei angen ac o gofio mai dim ond £4.586m o arbedion a ddaethpwyd o hyd iddynt ar gyfer 2009/10 y lefel arbedion fydd angen ei drosglwyddo i 2010/11 a chyfanswm yr arbedion y rhagwelir y bydd angen ei ddarganfod bryd hynny.

**Tabl 4**
**Amrediad Treth Gyngor ac arbedion**

| Cynnydd | Arbedion 2009/10 £m | Trosglwyddo i 10/11 £m | Arbedion 10/11 £m |
|---|---|---|---|
| 3.84% | 5.49 | 0.91 | 5.47 |
| 3.94% | 5.45 | 0.87 | 5.43 |
| 4.04% | 5.40 | 0.82 | 5.38 |
| 4.14% | 5.36 | 0.78 | 5.34 |
| 4.24% | 5.32 | 0.74 | 5.30 |
| 4.34% | 5.27 | 0.69 | 5.25 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.44% | 5.23 | 0.65 | 5.21 |
| 4.54% | 5.19 | 0.61 | 5.17 |

## 10. PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

10.1 Gellir crynhoi'r penderfyniadau y mae angen i'r Pwyllgor eu cymeryd fel a ganlyn –

a. A yw'r Pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon gyda'r lefel risg sydd ynghlwm â'r gyllideb ac yn cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig felly ar gyfer 2009/10 fel y nodir yn rhan 2 yr adroddiad yma ?

b A yw'r Pwyllgor yn dymuno gostwng lefel yr arbedion y mae disgwyl i ysgolion Uwchradd eu cyflawni yn 2009/10 fel y nodir yn rhan 8 yr adroddiad ?

c. A yw'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r bidiau a amlinellir yn adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad, ac os ydyw, a yw'n dymuno cadw'r ddarpariaeth ar gyfer bidiau ar y lefel £1.5m er mwyn medru cyflwyno pecyn o fesurau i gynorthwyo dinasyddion Gwynedd gyda'r dirwasgiad ? (Gweler adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad a rhan 4 yr adroddiad yma)

ch. A yw'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r bidiau cyfalaf a nodir yn adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad ac yn cymeradwyo felly rhaglen gyfalaf ar gyfer 2009/10 o £11.3m gan beidio â chymeradwyo unrhyw beth pellach hyd nes y byddwn wedi cymeradwyo y Cynllun Rheoli Asedau ? (Gweler adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad a rhan 7 yr adroddiad yma).

d. Beth yw'r lefel a argymhellir ar gyfer y cynnydd yn y Dreth Gyngor ?

dd. A yw'r Pwyllgor drwy hynny yn cymeradwyo cwrdd â'r gofynion unwaith ac am byth a nodir yng nghymal 5.2 yr adroddiad ynghyd â'r arbedion angenrheidiol uwchben £4.586m fydd yn deillio o'r penderfyniad yn d. uchod o'r balansau ?

---------------------------------------------------------------------------------------------------

**A. Barn yr Aelodau Lleol/Views of the Local Member:**

Dim yn fater lleol / Not a local issue.

---------------------------------------------------------------------------------------------------

**B. Barn y Swyddogion Statudol/The View of the Statutory Officers:**

**1. Prif Weithredwr/Chief Executive:**

"Mae'n amlwg bod y darlun ariannol cyflawn yn gwneud pennu strategaeth ariannol yn fater pur gymhleth ar yr adeg arbennig hyn. Mae'r dewisiadau i'r Bwrdd o ran y cydbwysedd rhwng torri, codi'r dreth a defnyddio symiau wrth gefn, er yn real, yn cael eu cyfyngu gan ddifrifoldeb y sefyllfa. Yn amlwg, bydd y Bwrdd am roi sylw i farn y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol wrth ddod i benderfyniad ar y mater."

*"It is obvious that the complete financial picture makes determining a financial strategy a very complicated one at this particular time. The options for the Board with regard to a balance between cuts, tax increase and using the reserves, although real, are restricted by the severity of the situation. Obviously, the Board will consider the opinion of the Corporate and Resources Scrutiny Committee when coming to a decision on the matter."*

**2. Swyddog Monitro/Monitoring Officer:**

**Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb/ *Nothing to add with regards to proprietry***

**3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:**

Mae'r strategaeth ariannol ar gyfer 2009/10 a thu hwnt a gyflwynwyd i'r aelodau ar 29 Gorffennaf 2008, ar 16 Rhagfyr 2008, a rŵan yn Chwefror 2009 wedi bod yn gyson wrth rybuddio bydd yr angen am arbedion yn parhau ar lefel fydd yn gynyddol heriol i'w cyflawni heriol. Fel y mae rhan 5 o adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau yn amlygu, y bydd angen darganfod arbedion ariannol o tua £5m yn 2009/10, 2010/11 a 2011/12, felly bydd toriadau ariannol pellach yn hanfodol er mwyn mantoli cyllideb y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

Er bod y Cyngor wedi cymryd camau sylweddol i wireddu arbedion a thorri gwasanaethau, bydd raid defnyddio swm sylweddol o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2009/10. Mae'r strategaeth gerbron (rhan 5) yn bwriadu defnyddio tua £1.83m o'r balansau cyffredinol er mwyn cwrdd ag anghenion unwaith ac am byth a 'pontio' cyfran o arbedion 2009/10 tan 2010/11.

Fel swyddog cyllid statudol y Cyngor, rhaid i mi danlinellu cynnwys rhan 6 o adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau. Rwy'n ystyried £5.4m o falansau cyffredinol (gellid ei gwario unwaith yn unig) yn isafswm i'r Cyngor. Felly, rwy'n argymell yn gryf i beidio gwneud unrhyw ddefnydd pellach o falansau dros y blynyddoedd dilynol, ac os bosib dylai'r Cyngor anelu dros y blynyddoedd nesaf i ailgyflenwi'r balansau tuag at y lefel £10m roedd yr Archwiliwr Penodedig yn ystyried yn ddarbodus.

Gydag ymlyniad ein cyfrifwyr i drefniadau costio proffesiynol, parhad i weithredu ymarferion cyllidebu darbodus, ynghyd â mewnbwn priodol gan aelodau etholedig a rheolwyr gwasanaethau, rwy'n argyhoeddedig fod y gyllideb a argymhellir yn ystyrlon. Rydym wedi casglu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag anghenion gwario 2009/10, er mwyn gosod cyllideb realistig ar sail amcangyfrifon priodol.

Gyda'r angen i ddarganfod arbedion sylweddol ac anweddolrwydd yng nghyswllt lefelau chwyddiant tebygol, bu raid gwneud penderfyniadau dewr a caled parthed rhai amcangyfrifon. Golygai hyn y bydd risg cymedrol mewn meysydd megis 'incwm llog ar falansau' a'r chwyddiant a ddarparwyd ar benawdau cyllideb fel tanwydd ac ynni. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth i'r argymhellion gerbron, yn gyffredinol credaf y gallwn gadw rheolaeth dros gyllid Cyngor Gwynedd yn 2009/10, ac mewn amgylchiadau hynod heriol credaf fod y strategaeth ariannol yma'n parhau'n ddarbodus.

Rwy'n ymwybodol, fel Pennaeth y Gwasanaeth sy'n casglu'r Dreth Cyngor, o'r pwysau byddai cynnydd sylweddol yn ei roi ar rai trethdalwyr yng Ngwynedd yng nghyd-destun y dirwasgiad economaidd cyfredol, ond mae gan aelodau'r Cyngor cyfyng gyngor wrth orfod torri gwasanaethau i etholwyr er mwyn cyfyngu'r cynnydd mewn Treth Cyngor. Yn yr amgylchiadau anodd hyn, rwy'n ystyried yr amrediad o gynnydd Treth Cyngor gerbron (rhwng 3.8% a 4.5%) yn rhesymol.

Wrth i'r strategaeth ariannol gymryd rhywfaint mwy o risg nac a fu mewn cyllidebau blynyddoedd blaenorol ac wrth i'r balansau cyffredinol gyrraedd lefel ei isafswm darbodus, rhaid i mi bwysleisio bydd yn bwysicach nac erioed i holl Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor reoli eu gwariant yn ddisgybledig a byw o fewn cyfyngiadau eu cyllidebau yn 2009/10.

*The financial strategy for 2009/10 and beyond which was presented to members on 29 July 2008, on 16 December 2008 and now in February 2009 has consistently warned that the need for savings will continue at a level which will be increasingly difficult to achieve. As part 5 of the Strategic Director – Resources' report reveals, about £5m of financial savings needs to be found in 2009/10, 2010/11 and 2011/12, therefore further financial cuts are essential in order to balance the Council's budget over the next few years.*

*Although the Council has taken significant steps to realize savings and cut services, it will be necessary to use a significant sum out of the Council's general balances in order to balance the Council's budget for 2009/10. This financial strategy (part 5) intends to use about £1.83m of general balances in order to meet one-off requirements and 'bridging' a portion of 2009/10 savings until 2010/11.*

*As the Council's statutory financial officer, I must underline the content of part 6 of the Strategic Director – Resources' report. I consider £5.4m of general balances (which may be spent only once) to be a minimum level for the Council. Therefore, I strongly recommend no further use of balances over subsequent years, and if possible the Council should aim to replenish the balances towards the £10m level considered by the Appointed Auditor to be prudent.*

*With our accountants' adherence to professional costing conventions, continued operation of prudent budgeting practices, alongside appropriate involvement of elected members and service managers, I am convinced that the budget recommended is sound. We have collected the latest information regarding spending needs for 2009/10, in order to set a realistic budget on the basis of proper estimates.*

*With the need to identify substantial savings and volatility regarding the probable levels of inflation, it was necessary to make brave and difficult decisions on some estimates. This means that there will be a measured risk in areas such as 'interest on balances' and inflation provided on budget heads like energy and fuel. However, with support for the recommendations submitted, generally I believe that we will be able to*

*keep control of Gwynedd Council's finances in 2009/10, and in particularly challenging circumstances that this financial strategy remains prudent.*

*I am aware, as the Head of the Service which collects the Council Tax, of the pressure that a significant increase would place upon some taxpayers in Gwynedd in the context of the current economic depression, but the Council's members have a dilemma as they are forced to cut services to electors in order to limit the increase in Council Tax. In these difficult circumstances, I consider the range of Council Tax increases tabled here (between 3.8% and 4.5%) to be reasonable.*

*As the financial strategy takes somewhat more risk than was taken in previous years' budgets and general balances reach their prudent minimum level, I must emphasize that it will be more important than ever for all the Council's Heads of Service to control their expenditure in a disciplined manner and to live within the limits of their budgets for 2009/10.*